

Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (FEIA)

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw darparu gwybodaeth gytbwys i gefnogi gwneud penderfyniadau a hyrwyddo ffyrdd gwell o weithio yn unol â chydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Iaith Gymraeg (Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a'r pedwar parameter trafodaeth am degwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn i'r Cyngor NFC 2013).

Cwblhawyd gan: Deborah Weston **Rôl:** Rheolwr y Gwasanaeth Addysg

Pennaeth y Gwasanaeth: Sarah Morgan **Dyddiad:** 01/06/2018

Cadarnhaf fod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cytuno i gynnwys yr asesiad hwn

le / Nage

Pan fyddwch yn cwblhau'r FEIA hwn, eich cyfrifoldeb yw ei gyflwyno i

impact.assessment@newport.gov.uk

1. Enw a disgrifiad y polisi / cynnig sy'n cael ei asesu. Amlinellwch ddiben y polisi.

Y diben yw ceisio caniatâd i symud ymlaen cynnig ad-drefnu ysgolion i sefydlu dosbarth Canolfan Adnoddau Dysgu 10 lle generig i ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion yn effeithiol o fis Ebrill 2019

2. Amlinellwch sut rydych chi/byddwch chi'n cynnwys rhanddeiliaid yr effeithir arnynt gan y polisi/cynnig

Mae trafodaethau eisoes wedi cael eu cynnal gyda'r Pennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol. Os rhoddir caniatâd i symud hyn ymlaen, ymgwymerir â'r cynnig yn unol â gofynion y Cod Trefnu Ysgolion statudol. Bydd hyn yn cynnwys cyfnod o ymgynghori ffurfiol gyda rhanddeiliaid allweddol.

3. Pa wybodaeth /dystiolaeth sydd gennych am rhanddeiliaid? e.e. barn, anghenion, defnydd y gwasanaeth ayyb. Dylech gynnwys yr holl dystiolaeth rydych yn ei hystyried yn berthnasol.

Mae'r Cod statudol yn amlinellu'r rhanddeiliaid allweddol y dylid ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses hon. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn allgynhwysol, ac mae'r Cyngor wedi nodi ac ychwanegu at hyn o ganlyniad i adborth a dderbynwyd mewn perthynas â chynigion blaenorol. Bydd y grwpiau rhanddeiliaid hyn hefyd yn cynnwys disgyblion, trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda chyngor yr ysgol a thrwy holiaduron

Yn dilyn y cyfnod hwn o ymgynghori ffurfiol, caiff Adroddiad Ymgynghori ei baratoi a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a chaiff ei ddefnyddio i bennu a ddylid symud i gyhoeddi cynnig statudol neu beidio. Hefyd caiff y FEIA ei ddiweddarau ar y cam hwn. Mae cyhoeddi cynnig statudol yn galluogi rhanddeiliaid i gyflwynol gwrthwynebiadau cyfreithiol yn erbyn cynnig.





4. Effaith ar gydraddoleb a'r iaith Gymraeg


Nodwedd warchoddedig	Effaith:			Darparwch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i ddileu gwahaniaethu/ aflonyddu/ erlid anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Nid y naill na'r llall	
Oedran	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Bydd sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu newydd yn cefnogi'r angen cynyddol am ddarpariaeth addysg gynradd arbenigol ar draws dinas Casnewydd, angen sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes y fath ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Dysgu o fewn ardaloedd clwstwr Caerllion na Sain Silian. Felly bydd y cynnig hwn o fudd i ddisgyblion sy'n byw yn lleol ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhai sy'n byw yn yr ardal clwstwr hon. Gall disgyblion ar draws y ddinas gael mynediad ato er mwyn cefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd priodol a diogel.</p> <p>Caiff yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol eu trin yn gyfartal beth bynnag fo eu statws o ran y nodwedd warchoddedig hon.</p>
Anabledd	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cyfleusterau Canolfan Adnoddau Dysgu ymhob adeilad ysgol newydd oherwydd bod hyn yn cefnogi ymagwedd fwy cynhwysol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Hefyd, mae dyhead i symud i sefyllfa lle y mae o leiaf un dosbarth Canolfan Adnodd Dysgu ymhob clwstwr o ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth o'r fath o fewn clwstwr Caerllion, neu yng nghlwstwr Sain Silian sy'n gyfagos.</p> <p>Bydd yr adeilad ysgol newydd yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.</p> <p>Caiff yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol eu trin yn gyfartal beth bynnag yw eu statws o fewn y nodwedd warchoddedig hon.</p>
Ailbennu rhywedd/ trawsryweddol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Caiff unrhyw ddisgyblion, rhieni/gofalwyr a staff sy'n dod o dan y nodwedd warchoddedig hon eu trin yn gyfartal yn unol â'r polisiau perthnasol fel y'i mabwysiadwyd gan gorff llywodraethu'r ysgol.
Priodas neu bartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Caiff yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol eu trin yn gyfartal beth bynnag fo eu statws o ran y nodwedd warchoddedig hon.
Beichiogrwydd neu	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Caiff yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol eu trin yn gyfartal

Nodwedd warchoddedig	Effaith:			Darparwch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i ddileu gwahaniaethu/ aflonyddu/ erlid anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Nid y naill na'r llall	
famolaeth				beth bynnag yw eu statws o fewn y nodwedd warchoddedig hon.
Hil	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu newydd yn cefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg gynradd arbenigol ar draws dinas Casnewydd, angen sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes y fath ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Dysgu o fewn ardaloedd clwstwr Caerllion na Sain Silian. Felly bydd y cynnig hwn o fudd i ddisgyblion sy'n byw'n lleol ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhai sy'n byw o fewn yr ardal clwstwr hon. Gall disgyblion ar draws y ddinas gael mynediad ato er mwyn cefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd priodol a diogel. Caiff yr holl ddisgyblion yn yr ysgol a'r staff a gyflogir ganddi eu trin yn gyfartal beth bynnag fo eu statws o ran y nodwedd warchoddedig hon.
Crefydd neu Gred neu anghrediniaeth	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion yn ysgol gynradd gymunedol. Fodd bynnag mae'r ysgol yn dilyn pob agwedd ar y cwricwlwm cenedlaethol. Caiff yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol eu trin yn gyfartal beth bynnag fo eu statws o fewn y nodwedd warchoddedig hon.
Rhyw/ Hunaniaeth Ryweddol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Bydd sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu newydd yn cefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg gynradd arbenigol ar draws dinas Casnewydd, angen sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes y fath ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Dysgu o fewn ardaloedd clwstwr Caerllion na Sain Silian. Felly bydd y cynnig hwn o fudd i ddisgyblion sy'n byw'n lleol ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhai sy'n byw o fewn yr ardal clwstwr hon. Gall disgyblion ar draws y ddinas gael mynediad ato er mwyn cefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd priodol a diogel. Caiff yr holl randdeiliaid sy'n gysylltiedig â'r ysgol eu trin yn gyfartal beth bynnag fo eu statws o ran y nodwedd warchoddedig hon.
Cyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Caiff unrhyw randdeiliaid sy'n dod o dan y nodwedd warchoddedig hon eu trin yn gyfartal yn unol â'r polisiau perthnasol fel y'u mabwysiadwyd gan gorff llywodraethu'r ysgol.

Nodwedd warchoddedig	Effaith:			Darparwch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i ddileu gwahaniaethu/ aflonyddu/ erlid anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Nid y naill na'r llall	
Yr Iaith Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion yn ysgol cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, mae'n dilyn pob agwedd ar y cwricwlwm cenedlaethol mewn perthynas â Chymraeg Ail Iaith.

5 Sut mae eich cynnig wedi mewnosod a blaenoriaethu'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?

Egwyddor o Ddatblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
 <p>Long Term</p> <p>Cydbwysu angen tymor byr ag anghenion hirdymor</p>	<p><i>Ydy, trwy gefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ar draws y sector ysgolion cynradd.</i></p>
 <p>Collaboration</p> <p>Gweithio gyda'n gilydd i gyflawni amcanion</p>	<p><i>Caiff ymgynghoriad statudol ffurfiol ei gynnal gyda chyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliad a chaiff hwn ei gefnogi ar bob cam gan FEIA i ystyried yr effaith.</i></p>
 <p>Involvement</p> <p>Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu barn</p>	<p><i>Caiff ymgynghoriad statudol ffurfiol ei gynnal gyda chyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliad a chaiff hwn ei gefnogi ar bob cam gan FEIA i ystyried yr effaith.</i></p>
 <p>Prevention</p> <p>Rhoi adnoddau i atal problemau rhag codi neu fynd yn waeth</p>	<p><i>Mae'r angen am ddarpariaeth addysg arbenigol wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 diwethaf ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Dysgu yn ardaloedd clwstwr Caerllion na Sain Silian. Felly bydd y cynnig o fudd i ddisgyblion sy'n byw'n lleol ond ni fydd yn gyfynged i'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd hyn. Bydd y ddarpariaeth newydd ar gael i ddisgyblion sy'n byw ar draws y ddinas gael mynediad ati er mwyn cefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd priodol a diogel. Bydd hyn yn galluogi plant i fynychu ysgol sy'n fwy lleol i'w cyfeiriad cartref.</i></p>

Egwyddor o Ddatblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
 <p data-bbox="229 678 322 701">Integration</p> <p data-bbox="129 719 416 864">Ystyried effaith ar yr holl nodau llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill</p>	<p data-bbox="453 304 1417 539"><i>Caiff ymgynghoriad statudol ffurfiol ei gynnal a'i gefnogi ar bob cam gan FEIA i ystyried effaith. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nodau Llesiant "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal a "Chymru o gymunedau cydlynus" ac nid yw'n cael unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill. Yn ogystal, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd sef "Gwella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".</i></p>

6 A fydd y cynnig/polisi yn cael effaith anghymesur ar ardal ddaearyddol benodol o Gasnewydd?

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i ddarparu cyfleusterau Canolfan Adnoddau Dysgu ymhob adeilad ysgol newydd oherwydd bod hyn yn cefnogi ymagwedd fwy cynhwysol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Hefyd mae dyhead i symud i sefyllfa lle y mae o leiaf un dosbarth Canolfan Adnodd Dysgu ymhob clwstwr ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth o'r fath o fewn clwstwr Caerllion, nac yng nghlwstwr Sain Silian sy'n gyfagos.

Bydd y cynnig hwn felly o fudd i ddisgyblion sy'n byw'n lleol ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhai sy'n byw yn yr ardal clwstwr hon. Caiff disgyblion sy'n byw ar draws y ddinas fynediad ato i gefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd priodol a diogel.

7 Sut mae'r cynnig/polisi yn perthyn i bamedrau'r drafodaeth am Degwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd?

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ar draws dinas Casnewydd, angen sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu o fewn ardaloedd clwstwr Caerllion na Sain Silian. Felly bydd y cynnig hwn o fudd i ddisgyblion sy'n byw'n lleol ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhai sy'n byw yn yr ardal clwstwr hon. Gall disgyblion ar draws y ddinas gael fynediad ato er mwyn cefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd priodol a diogel.

8 Gan gymryd yr asesiad hwn yn ei gyfanrwydd, beth allai gael ei wneud er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol eich polisi a chyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?

Bydd yn cynnig yn destun ymgynghoriad llawn gyda'r rhanddeiliaid a chaiff unrhyw adborth a gynigir ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu sut i symud ymlaen.

9 Monitro, gwerthuso ac adolygu

Caiff effaith y cynnig ei arfarnu ar ôl cael ei weithredu'n llawn. Caiff y FEIA hwn ei adolygu a'i diweddarau ar gamau drwy gydol y cynnig.

10 Beth fydd yn rhan ohono

Caiff rhaglen lawn o ymgysylltu â rhanddeiliaid ei gweithredu er mwyn cefnogi'r ymgynghoriad ffurfiol a bydd yn cynnwys sesiynau galw heibio lle y gall pobl ddysgu mwy am y cynnig. Hefyd, bydd cyfle i glywed llais y disgybl trwy'r cyngor ysgol.

Caiff rhagor o wybodaeth ei rhannu gyda rhanddeiliaid wrth i'r cynnig fynd yn ei flaen.

11 Crynodeb o'r Effaith (i'w gynnis mewn unrhyw adroddiad)

Deddf Cydraddoldeb 2010 A'R Iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cyfleusterau Canolfan Adnoddau Dysgu ymhob adeilad ysgol newydd oherwydd bod hyn yn cefnogi ymagwedd fwy cynhwysol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Hefyd, mae dyhead am symud i sefyllfa lle y mae o leiaf un dosbarth Canolfan Adnoddau Dysgu ym mhob clwstwr o ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth o'r fath yng nghlwstwr Caerllion, nac yn y clwstwr Sain Silian sy'n gyfagos.

Er mwyn cefnogi addysg plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol lle nad ystyrir bod addysg prif ffrwd yn briodol, mae gan yr Awdurdod Lleol nifer o Ganolfannau Adnoddau Dysgu ledled y Ddinas, wedi'u cynnal gan ysgolion unigol. Mae'r Canolfannau Adnoddau Dysgu ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd ac maen nhw'n darparu amgylcheddau dysgu sydd â niferoedd disgyblion is gyda chymarebau oedolion gwell. Mae'r Canolfannau Adnoddau Dysgu yn generig eu natur ac maent yn bodloni anghenion disgyblion sydd ag ystod o anawsterau. Yr ethos yw darparu cefnogaeth i'r disgyblion unigol yn benodol ac yn seiliedig ar eu hanghenion gyda'r bwriad o integreiddio'r disgybl yn ôl i ddsbarthiadau prif ffrwd fel sy'n briodol. Mae galw parhaus am leoliadau Canolfannau Adnoddau Dysgu ledled Casnewydd.

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol ar draws dinas Casnewydd, galw sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu o'r fath o fewn ardaloedd clwstwr Caerllion na Sain Silian. Felly bydd y cynnig hwn o fudd i ddisgyblion sy'n byw'n lleol ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhai sy'n byw yn yr ardal glwstwr hon. Gall disgyblion ar draws y ddinas gael mynediad ato i gefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd priodol a diogel.

Mae Ysgol Gynradd Lodge Hill yn Ysgol Cyfrwng Saesneg. Bydd yr ysgol yn parhau hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymhob ffordd bosibl a bydd yn dilyn pob agwedd ar y cwricwlwm ysgol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

I grynhoi, mae'r cynnig hwn yn cefnogi llesiant trwy gefnogi ymagwedd fwy cynhwysol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i ddarparu cyfleusterau Canolfannau Adnoddau Dysgu ymhob adeilad ysgol newydd. Hefyd mae dyhead i symud tuag at sefyllfa lle y mae o leiaf un dosbarth Canolfan Adnoddau Dysgu ymhob clwstwr o ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth o'r fath yng nghlwstwr Caerllion nac yng Nghlwstwr Sain Silian sy'n gyfagos. Bydd sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu hon yn galluogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i gael eu haddysgu mewn ysgolion sy'n fwy lleol i'w cyfeiriadau cartref.